

Taflen Ffeithiau

Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn gofyn am Lety
Argyfwng?

Coed Pella,
Conway Road,
Bae Colwyn.
LL29 7AZ
0300 1240040



Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn gofyn am Lety Argyfwng?

Bydd y Swyddog Atal Digartrefedd yn ceisio eich atal rhag bod yn ddigartref lle bynnag y bo modd, drwy asesu pam eich bod yn ddigartref, pa ddatrysiad yr ydych yn ei geisio a pha gamau rhesymol y gallwch eu cymryd i ddatrys eich problem tai.

Os ydych chi angen llety argyfwng, mae'n rhaid i'r Swyddog Atal Digartrefedd ddilyn deddfwriaeth y llywodraeth i asesu a oes dyletswydd gyfreithiol i ddarparu llety dros dro i chi.

Mae'n rhaid i'r Cyngor fodloni 3 allan o 5 prawf a osodwyd yn neddfwriaeth y Llywodraeth cyn y gellir ystyried llety dros dro. Mae manylion y rhain wedi'u rhestru isod:

1. Ydych chi'n gymwys i gael cymorth?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gymwys. Fodd bynnag, os ydych chi'n diwallu un o'r meini prawf canlynol yna mae'n debyg nad ydych yn gymwys i gael cymorth:

- Ceisiwr Lloches
- Hawliau cyfyngol i aros yn y DU
- Yn dod o dramor ac nad ydych yn gallu hawlio 'arian cyhoeddus'
- Nad ydych fel arfer yn byw yn y DU

Os yw'r Swyddog Atal Digartrefedd yn eich cynghori nad ydych yn gymwys i dderbyn cymorth yna ni fyddwch yn gymwys i dderbyn unrhyw gymorth pellach, ond byddant yn eich cynghori ynglŷn ag asiantaethau eraill a allai eich cynorthwyo.

2. Ydych chi'n ddigartref?

Mae diffiniad 'digartrefedd' yn golygu mwy na dim ond bod allan ar y stryd. Efallai eich bod yn ddigartref os;

- Nad oes gennych unrhyw le i fyw yn y DU nac mewn unman arall yn y byd.
- Na allwch fyw yn eich cartref oherwydd bygythiad neu wir gamdriniaeth sy'n debygol o gael ei gyflawni yn eich erbyn chi neu rywun yn eich aelwyd.
- Nad oes gennych rywle lle y gallwch fyw gyda'ch teulu cyfan.
- Nad oes gennych ganiatâd gan y perchennog neu'r tenant i aros.
- Eich bod wedi'ch cloi allan o'ch cartref ac nad ydych yn cael mynd yn ôl i mewn.
- Mae eich cartref yn gwch, cartref symudol neu garafán ac nad oes gennych unman i'w roi.
- Dim ond dros dro y gallwch aros lle'r ydych yn awr.
- Nid yw'n rhesymol i chi aros yn eich cartref am unrhyw reswm e.e. mae eich cartref mewn cyflwr gwael.
- Ni allwch fforddio aros lle'r ydych yn awr.

Efallai y byddwch hefyd yn cael eich ystyried yn ddigartref os ydych chi'n byw yn rhywle ond yn gorfod gadael o fewn 56 diwrnod. Gallai hyn fod o ganlyniad i Orchymyn Llys neu bod perthnasau neu ffrindiau wedi gofyn i chi adael.

Efallai y bydd pobl sy'n gadael yr ysbyty neu sefydliad arall yn cael eu hystyried yn ddigartref os nad oes ganddynt fan arall i fynd iddo pan fyddant yn gadael.



Os yw'r Swyddog Atal Digartrefedd yn egluro nad ydych yn ddigartref, byddwch yn derbyn cyngor ynglŷn â'ch dewisiadau a gwybodaeth am asiantaethau eraill a allai eich helpu chi.

3. Oes gennych chi angen blaenoriaethol?

Os ydych chi'n gymwys i dderbyn cymorth ac yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd bydd y Swyddog Atal Digartrefedd yn gwirio i weld os oes gennych chi angen blaenoriaethol. Mae'r canlynol yn ddisgrifiadau byr o'r aelwydydd a ystyrir fel rhai gydag angen blaenoriaethol.

- Os oes gennych chi blant dibynnol yn byw yn eich aelwyd, neu fod gennych blant dibynnol sy'n dymuno byw gyda chi.
- Os ydych chi, neu aelod o'ch aelwyd, yn feichiog
- Os ydych chi'n 16 neu'n 17 mlwydd oed
- Os ydych chi newydd adael y Lluoedd Arfog.
- Os ydych chi newydd adael y Carchar ac yn ddiamddiffyn o ganlyniad i'ch datgeliad
- Os ydych yn profi camdriniaeth
- Os ydych chi'n unigolyn hŷn, neu eich bod yn byw mewn aelwyd gydag unigolyn hŷn
- Os ydych chi'n ddiamddiffyn oherwydd iechyd gwael, anabledd corfforol, dysgu neu feddyliol neu reswm arall.
- Os ydych chi'n gadael gofal ac yn 18-20 oed
- Os ydych chi'n ddigartref oherwydd argyfwng megis tân neu lifogydd

4. A fyddaf yn derbyn llety?

Efallai bydd yr Aelwydydd yn y categorïau uchod yn cael eu hystyried fel rhai ag angen blaenoriaethol. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 Rhan 2 yn egluro i'r Swyddog Atal Digartrefedd beth yw angen blaenoriaethol.

Os yw'r Swyddog Atal Digartrefedd yn eich cynghori nad oes gennych angen blaenoriaethol, ni fydd gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu llety argyfwng ar eich cyfer chi. Bydd y Swyddog Atal Digartrefedd yn eich cynorthwyo ac yn rhoi cyngor i chi ynglŷn â sut i dderbyn llety amgen, fforddiadwy.

Os ydych chi'n diwallu meini prawf pwynt 1, 2 a 3 bydd gan Gyngor Conwy ddyletswydd i ddarparu llety i chi. Gelwir hyn yn Lety Dros Dro, a ddefnyddir am gyfnod byr o amser yn unig.

Os na all y Swyddog Atal Digartrefedd benderfynu a oes gennych angen blaenoriaethol, byddant yn darparu llety i chi tra byddant yn parhau i wneud ymholiadau ynglŷn â'ch sefyllfa.

Beth yw llety dros dro?

Bydd y math o Lety Dros Dro yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol.

- Hostel
- Lloches
- Chalet
- Gwely a brecwast
- Fflatiau neu dai gwag, ar adegau

Fel arfer byddwn yn cynnig un math o lety dros dro. Os ydych chi'n gwrthod hwn efallai na fyddwn yn gwneud cynnig arall. **Peidiwch â gwrthod cynnig heb geisio cyngor yn gyntaf.** Os ydych chi'n teimlo bod y cynnig yn anaddas dylech egluro pam i'r Swyddog Atal Digartrefedd.

Tra byddwch yn byw yn y llety dros dro bydd eich Swyddog Atal Digartrefedd yn gwneud ymholiadau am eich sefyllfa, wrth barhau i'ch cynorthwyo i ganfod eich llety eich hun. Os ydych chi'n gwrthod y cynnig hon, byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi os ydych chi ofyn i chi adael y llety.



5. Ydych chi'n fwriadol ddigartref?

Bydd y Swyddog Atal Digartrefedd yn edrych pam eich bod yn ddigartref.

Os daw i'r amlwg eich bod yn fwriadol ddigartref a bod angen blaenoriaethol arnoch, bydd dyletswydd o hyd ar y Cyngor i ddarparu tai i chi dros dro. Mae hyn er mwyn i chi gael cyfnod rhesymol o amser i ganfod rhywle arall i fyw. Bydd y Swyddog Atal Digartrefedd yn egluro pa ddewisiadau sydd gennych chi.

Os ydynt yn canfod eich bod yn fwriadol ddigartrefedd efallai y dylech geisio cyngor gan asiantaeth annibynnol.

6. Oes gennych chi gysylltiad lleol?

Mae'n rhaid i'r Swyddog Atal Digartrefedd fod yn fodlon fod gennych gysylltiad lleol i dderbyn y ddyletswydd lawn a therfynol; i ddarparu llety dros dro am gyfnod amhenodol, nes y byddwch yn dod o hyd i lety addas a fydd ar gael i chi am o leiaf 6 mis.

Mae gennych gysylltiad lleol os yw unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i chi (neu rywun yn eich aelwyd)

- Eich bod yn byw neu wedi byw yn ardal Conwy am 6 mis yn y flwyddyn ddiwethaf, neu 3 o'r 5 mlynedd ddiwethaf.
- Fod gennych swydd yn yr ardal.
- Fod gennych berthynas agos (Mam, Tad, chwaer, brawd neu blentyn sy'n oedolyn) sydd wedi byw yn yr ardal am 5 mlynedd.
- Bod angen i chi fyw yn yr ardal am reswm arbennig.

Os yw'r Swyddog Atal Digartrefedd yn eich cynghori nad oes gennych gysylltiad lleol, efallai mai cyfrifoldeb awdurdod arall yw canfod llety ar eich cyfer a byddwn yn eich atgyfeirio at yr Awdurdod i dderbyn llety argyfwng.

Gwybodaeth arall

Llythyrau Penderfyniad

Os ydych chi mewn llety dros dro a ddarparwyd gan y Tîm Atal Digartrefedd, byddwch yn derbyn penderfyniad ysgrifenedig o ran pa ddyletswydd sydd ddyledus i chi gan Gyngor Conwy. Bydd y llythyr yn egluro beth yw'r penderfyniad a pham y gwnaed y penderfyniad. Bydd hefyd yn eich cynghori ynglŷn â'ch hawl i apelio pe baech yn anghytuno â'r penderfyniad.

Os ydych yn teimlo eich bod wedi'ch trin yn annheg neu'n anfodlon gyda'r modd yr aethpwyd i'r afael â'ch achos, bydd y llythyr yn egluro'r Weithdrefn Gwynion.

Llety Parhaol

Os yw'r Swyddog Atal Digartrefedd yn derbyn bod dyletswydd lawn i'ch ailgartrefu chi, byddwch yn aros yn eich llety dros dro nes y byddwch wedi canfod llety amgen a fydd ar gael i chi am o leiaf 6 mis. Mae'n rhaid i'r llety fod yn addas ac ar gael i chi a'ch teulu. Os nad ydych yn hoffi'r llety, dylech geisio cyngor cyfreithiol cyn i chi ei wrthod.

Byddwn yn cynnig un math lety addas yn unig. Gallai gwrthod y llety hwn olygu bod yn rhaid i chi adael eich llety dros dro.

Dyluniwyd y daflen hon i roi gwybodaeth gyffredinol i chi os byddwch yn ddigartref, ynglŷn â beth sy'n digwydd pan fyddwch angen llety dros dro.

Fersywn 2 Ionawr 2020



Yn ystod eich asesiad ac wrth weithio gyda'ch Swyddog Atal Digartrefedd, bydd pob agwedd o dderbyn llety yn cael ei ddarparu mewn mwy o fanylder.



Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru.

Os hoffech wybodaeth all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch fynd i wefan Dewis Cymru ar www.dewis.wales.

Gall y wefan eich cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth lleol a chanfod gwybodaeth a chyingor. Mae'n bwynt mynediad sengl, clir a dibynadwy.

This document is also available in English.



Fersywn 2 Ionawr 2020